

# Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 17/11/2014  
Minutes of the meeting held on Monday evening 17/11/2014

## Presennol / Present:

Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair)  
Mr Jack Longman  
Mrs Carys Davies

Mr Elfed Jones  
Mrs Marilyn Hughes  
Mr Tony Hughes

Mrs Julia Dobson  
Mr David Livingstone

## Cynghorwyr Sirol / County Councillors:

Cyng./Cllr Wil Hughes

Cyng./Cllr Richard O Jones

Cyng./Cllr Aled Morris Jones

## Yn Bresennol / In Attendance:

Mrs Carli Evans-Thau (Clerc / Clerk)

Mary Sillitoe (Grŵp Cynefin)

Mr Rees Roberts (Cyfieithu / Translation)

## Ymddiheuriadau / Apologies:

PCSO Alison Williams

### 1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.  
*Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance.*

### 2 Cyflwyniad Grŵp Cynefin (Mary Sillitoe) / Cynefin Group Presentation (Mary Sillitoe)

Croesawyd Mary Sillitoe i'r cyfarfod. Esboniwyd mai partneriaeth rhwng Tai Eryri a Thai Clwyd yw Grŵp Cynefin, a'u bod yn edrych ar wahanol safleoedd i ddatblygu tai fforddiadwy i bobl leol gael eu rhentu. Mae cynllun wrth gefn ar hyn o bryd i ddatblygu parcel o dir ger Ffordd y Felin (tu cefn i orsaf yr heddlu), yn ddibynnol ar yr angen lleol ac os oes arian ar gael i ddatblygu safle o'r fath.

Ni fydd modd prynu'r tai, ond yn hytrach eu rhentu ar lefel gymdeithasol. Bydd y rhent yn cynnwys cyfraniad tuag at gostau torri gwair a chynnal a chadw. Mae cynlluniau ar gyfer 12 o dai 3/4 llofft a gerddi mawr, ond bydd posib newid hyn yn ôl yr angen lleol. Bydd y tai o safon uchel ochr yn ochr â safonau tai Llywodraeth Cymru (gan gynnwys mynediad i bobl ag anabledd).

Pwysleisiwyd bydd angen tai i bobl a chysylltiad lleol, yn enwedig a datblygiad Wylfa Newydd ar y gweill. Fe gadarnhaodd Mrs Sillitoe bod gan Grŵp Cynefin bolisi gosod lleol a fyddai yn sicrhau mai pobl leol fydd yn gallu manteisio o'r tai newydd petaent yn cael eu hadeiladu.

Esboniwyd y bydd ymgynghoriad lleol yn cymryd lle cyn y Nadolig er mwyn i'r gymuned gallu rhoi eu barn. Trafodwyd y posibilrwydd o hysbysebu yn y Chronicle ac yn Llais Cemaes er mwyn codi ymwybyddiaeth.

Fe gytonodd yr aelodau eu bod yn cefnogi'r cynllun mewn egwyddor ond bydd angen mwy o fanylder, a sicrhad bydd polisi gosod lleol mewn grym.

Diolchwyd i Mrs Sillitoe am fynychu'r cyfarfod.

*Mary Sillitoe was welcomed to the meeting. It was explained to those present that the Cynefin group was a partnership between Tai Eryri and Tai Clwyd Housing Associations, and that they have been looking at different locations to develop affordable housing for local people to rent. A plan has been drafted for the possible development of land by Ffordd y Felin (behind the police station), depending on local need and whether funding is available for the project.*

*There will not be a facility to purchase the properties but rather they will be rented out on a social level. Rent will include a contribution towards grass cutting and maintenance. Plans have been drawn for 12 houses 3-4 bedrooms each, but it will be possible to amend these dependent on local need. The houses will be of a high standard in line with the Welsh Government standards (including accessibility for disabled tenants).*

*The need for local housing for local people was emphasised, especially with the imminent development of Wylfa Newydd. Mrs Sillitoe confirmed that Cynefin Group have a local letting policy which would ensure that local people will be able to take advantage of the new housing should they be developed.*

*It was explained that a public consultation will take place before Christmas and the possibility of advertising in the Chronicle and Cemaes Voice was discussed.*

Members agreed in principle to support the project, but more information is required, and confirmation that the local lettings policy is enforced.

Mrs Sillitoe was thanked for attending the meeting.

### **3** **Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Cynllunio / *Planning* - Wil Hughes, Richard Jones

### **4** **Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Dave Livingstone, eiliwyd gan Carys Davies.

Fe nododd Carys Davies ei bod wedi ymddiheuro nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod ychwanegol 6/11/14 ond nad oedd wedi ei gofnodi.

*The minutes were accepted as a true record. Proposed by Dave Livingstone, seconded by Carys Davies. Carys Davies noted that she had sent her apologies for the additional meeting 6/11/2014 but it had not been recorded as such.*

### **4** **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

#### **4.1** **Arwyddion Twristiaeth / Tourism Signs**

Anfonwyd copi o luniau'r arwyddion cyfredol i'r aelodau cyn y cyfarfod blaenorol. Daw pris o dros £3.7k am arwyddion newydd. Cynigwyd ffurfio is-bwyllgor i edrych ar yr arwyddion mewn mwy o fanylder ond nid oedd eilydd. Cytuno nad oedd gan y Cyngor y fath arian i'w wario ar arwyddion, ac y buasai croeso i Bartneriaeth Gymunedol Cemaes geisio am grantiau petaent yn dymuno.

*A copy of photos of the current signs were sent to all members prior to the last meeting. A price in excess of £3.7k has been quoted for new signage. It was proposed that a new sub-committee be formed to look at the signs in more detail but the proposal was not seconded. It was agreed that the Council do not have such funds to allocate on signage, and that the Cemaes Community Partnership would be welcome to apply for funding for new signage should they wish.*

#### **4.2** **Mainc y Cae Chwarae / Play Area Bench**

Mae'r fainc yn disgwyl cael ei thrin / *The bench is waiting to be repaired.*

#### **4.3** **Goleuadau Stryd / Street Lighting**

Fe gadarnhaodd y Clerc bod y Cyngor Sir yn fodlon talu am un golau newydd ger mynedfa'r Harbwr. Dosbarthwyd copi o gynllun ble cynigir ei gosod ac roedd pawb yn fodlon a'r lleoliad. Gofynnwyd i'r Clerc gadarnhau hyn gyda'r swyddogion er mwyn i'r gwaith gael ei gwblhau cyn gynted â phosib.

*The Clerk confirmed that the County Council are willing to fund one new light by the entrance to the Harbour. A copy of a plan showing the proposed location was circulated and all present were happy with the proposed site. The Clerk was asked to contact the officers to confirm so that the work can be completed as soon as possible.*

#### **4.4** **Gwaith Brics / Old Brick Works**

Daw llythyr gan y Cyngor Sir yn gwrthod cymryd y cyfrifoldeb am y gwaith brics gan fod cytundeb wedi ei arwyddo yn 1998 gan y Cyngor Cymuned. Ni does dyddiad i derfynu'r cytundeb.

Mae'r Clerc wedi cysylltu â gwahanol arolygwyr am bris i wneud arolwg diogelwch ar yr adeiladau. Mae dau bris wedi ei dderbyn hyd yma sef Dilwyn Jones £500 + tax ac Ken Irish £550 + tax. Penderfynwyd disgwyl am drydydd pris cyn symud ymlaen. Nodwyd y byddai pris am sgaffaldu'r adeilad i wneud arolwg tua £12,000!

*The County Council have written stating that they will not take responsibility of the brick works and stating that the Community Council have signed an agreement in 1998. There is no date on the agreement to terminate.*

*The Clerk has been in contact with different surveyors to get a quote for the work required. Two quotes have been received to date - Dilwyn Jones £500 + vat and Ken Irish £550 + vat. It was agreed to wait on a third quote before moving ahead. It was noted that scaffolding for such a survey would cost approx £12,000!*

#### 4.5 **Goleuadau Nadolig / Christmas Lights**

Mae'r goleuadau yn parhau i fod yn broblemus. Daw pris gan Richard Parry i ddefnyddio'r hen oleuadau - £978 gan gynnwys y goeden. Bydd angen gweld dogfennau Yswiriant a chymwysterau Mr Parry cyn gallu derbyn y pris, ac fe fydd hefyd angen pris gan contractwyr eraill os yw'r Cyngor am dalu am y gwaith.

Cynigwyd bod y Cyngor yn gwneud cais i Horizon am gefnogaeth ariannol gan fod amser yn hedfan heibio. Bydd Partneriaeth Gymunedol Cemaes yn rhoi cais i Gronfa Padrig y flwyddyn nesaf, ac yn ceisio am wahanol grantiau i gael sioe dda.

Roedd pawb yn hapus i Jack Longman drefnu bod y stand ar gyfer y goeden yn cael ei thrin cyn i'r goeden gael ei gosod. Deallwyd bod y goleuadau ar gyfer y goeden yn gweithio ac nad oeddent angen gwaith.

*The lights continue to pose problems. Richard Parry has quoted £978, using the old lights and including a tree. The Council will need to see copies of Mr Parry's insurance and evidence of his competence before the quote is accepted. Quotes will also be required from other contractors before the Council can pay for the work.*

*It was proposed that the Council ask Horizon for financial assistance as time is not on our side. Cemaes Community Partnership will be applying to Cronfa Padrig for funding towards lights in the new year, and also applying for other funding in order to put on a good show.*

*All present were happy for Jack Longman to arrange for work to be done on the base for the Christmas Tree before the tree is put in place. It was understood that the lights for the tree are serviceable.*

#### 4.6 **Bonc y Môr**

Nid yw Elfed Jones wedi cael pris am y gwaith eto / *Elfed Jones is yet to receive a quote for the work.*

#### 4.7 **Toiledau / Toilets**

Bydd toiledau'r traeth yn agor ddiwedd Tachwedd, ac felly bydd toiledau'r stryd yn cau. Cafwyd trafodaeth am y ffordd ymlaen ac fe benderfynwyd estyn gwahoddiad i Mr Dewi Williams ddod i gyfarfod mis Ionawr y Cyngor er mwyn ateb cwestiynau wyneb yn wyneb.

*The beach toilets will be open at the end of November, and as such the street toilets will close. Following a discussion on the way forward it was agreed to invite Mr Dewi Williams to the Council's meeting in January so that he could answer questions face to face.*

### **5** **Cyllid / Finance**

Cafwyd crynodeb byr o'r cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod angen edrych ar y rheoliadau ariannol a'u diweddarau cyn gynted â phosib. Bydd hyn yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Cyllid. Pawb yn hapus i'r pwyllgor wneud y newidiadau angenrheidiol.

*A short summary was given of the last meeting. It was noted that there is a need to review the Financial Regulations as soon as possible. This will be discussed by the Finance Committee and all present were happy for them to make the necessary amendments.*

Roedd dau bil i'w talu – / there were two bills to pay –

- Helen Beck (gweinyddu / administration) £27.45
- Poppy Appeal (torch / wreath) £25.00

### **6** **Cwynion / Complaints**

#### **6.1** **Mr Tainton**

Cafwyd esboniad gan Marilyn Hughes bod y Panel Cwynion wedi cyfarfod i drafod pwyntiau wedi eu codi gan Mr Tainton. Nodwyd bod y Panel wedi dilyn system tri cham, ac mai'r trydydd cam oedd dod ag argymhellion i'r Pwyllgor Llawn.

Darllenwyd argymhellion y Panel ynglŷn â'r cwestiynau a godwyd gan Mr Tainton.

Nodwyd ei bod yn bwysig bod pob aelod yn cofio dilyn y cod ymddygiad, a'u bod wedi arwyddo datganiad wrth dderbyn swydd y cynghorydd.

Roedd pawb yn hapus ac yn cytuno a'r argymhellion gan nodi ei bod yn bwysig bod pob cwyn o'r fath yn dilyn yr un system fel bod y Cyngor yn delio a phawb mewn ffordd deg. Diolchwyd i'r Panel am eu gwaith, a chytunwyd anfon llythyr i Mr Tainton yn nodi eu hargymhellion. Bydd Mr Tainton yn siarad â'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

*Marilyn Hughes gave an explanation of the three stage procedure used by the Complaints Panel when addressing complaints. This system has been used when addressing the recent complaint by Mr Tainton, the third step of the procedure being bringing the complaint and recommendations to the full Council.*

*The Complaints Panel's recommendations in response to Mr Tainton's questions were read out to those present.*

*It was noted that it is essential that all members adhere to the code of conduct and that they have all signed a declaration accepting the position of councillor.*

*All present were happy with, and agreed with the recommendations. Following the same procedure when dealing with complaints is essential to ensure consistency and fairness. The Panel were thanked for their work, and it was agreed to send a letter to Mr Tainton noting the Council's recommendations and decision. Mr Tainton will be speaking at the next Council meeting.*

## **6.2 Polisi Cwynion / Complaints Procedure**

Fe gytunodd pawb oedd yn bresennol y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r Polisi Cwynion wedi ei ddatblygu gan yr is-bwyllgor, ac fe dderbyniwyd y ddogfen yn swyddogol.

*All present agreed that the Council should adopt the Complaints Procedure developed by the sub-committee and the document was formally adopted.*

## **7 Cynllunio / Planning**

### **7.1 Penderfyniadau / Decisions**

Cafwyd wybod bod y Cyngor Sir wedi gwneud y penderfyniadau canlynol -  
*The County Council confirmed the following decisions –*

- Llanlleiana – 20C241E – *Caniatad / Granted*
- Ysgubor Newydd - 20C296 - *Gwrthodwyd / Refused*

### **7.2 Ceisiadau / Applications**

Roedd tri chais i'w trafod / *There were three applications to discuss.*

- *Bron Wendon – 20C304 – dim gwrthwynebiad / no objection*
- *30 Gwelfor Estate – 20C303 - dim gwrthwynebiad / no objection*
- *Sea Breeze – 20C291A - dim gwrthwynebiad / no objection*

## **8 Hyfforddiant Cod Ymddygiad / Code of Conduct Training**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, mae'r Clerc wedi bod ar hyfforddiant yn Llangefni. Dosbarthwyd copïau o'r cyflwyniad a gafwyd gan swyddogion monitro'r Cyngor Sir i bawb oedd yn bresennol, gan bwysleisio ar y pwyntiau mwyaf pwysig a nodi ble mae modd cael mwy o wybodaeth petai angen.

*Following the last meeting the Clerk has been on training at Llangefni. A copy of the presentation given by the County Council's monitoring officers was distributed to all present, with emphasis given on the most important points and where to find more information if needed.*

## **9 Gohebiaeth / Correspondence**

**9.1** Cafwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn datgan bod gwaith ar Wylfan yr Harbwr yn dechrau 3/11/14 am gyfnod o bedair wythnos a bydd defnydd o'r llwybr cyfagos wedi ei gyfyngu tra bod gwaith yn parhau.

*A letter from the County Council stated that work is to commence on the Harbour Viewing area 3/11/14 for approximately four weeks, and that use of the nearby footpath will be limited whilst work is ongoing.*

**9.2** Rhybudd o gyfarfod a'r Comisiynydd heddlu 10/12/14 ym Mae Colwyn.

*Notice of a meeting with the Police Commissioner in Colwyn Bay 10/12/14.*

**9.3** Ymgysylltiad Cymunedol - Cyfarfod a'r Pwyllgor Sgriwtini 18/12/14 yn Llangefni. Nododd Marilyn Hughes y pwysigrwydd o fynychu gan fod y Cyngorau Cymuned yn cael mwy a mwy o gyfrifoldeb ac mae'n bwysig bod pob

cymuned yn cael llais.

*Community Consultation – Meeting with the Scrutiny Committee 18/12/14 at Llangefni. Marilyn Hughes noted the importance of attending as local councils are now given more and more responsibility and it is important that all community councils have a voice.*

9.4 Cylchlythyr diweddaraf Cwmni Cemaes' latest newsletter

## **10 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

10.1 Cynigwyd bod llythyr yn cael ei anfon i Mr Charlie Tasker (Horizon) yn y flwyddyn newydd ynghyd a gwaith draenio ym Mynwent y Rhyd.

*It was proposed that a letter is sent to Mr Charlie Tasker (Horizon) in the new year with regard to the drainage work at Y Rhyd Cemetery.*

10.2 Mae posib trefnu cyfarfod (tele-conference) gydag aelodau o gymuned Sedgewell ble mae datblygiad tebyg i Wylfa newydd eisoes wedi cymryd lle. Fe gynigodd Aled Morris Jones gysylltu â'r Cyngor yno i gael manylion cyswllt.

*It is possible to arrange a tele-conference with members of the community at Sedgewell where a similar development to Wylfa Newydd has already taken place. Aled Morris Jones offered to contact them to get the appropriate contact details.*

## **10.3 Wylfa Newydd**

Mae angen ymateb i'r ddogfen ymgynghorol erbyn Rhagfyr 8. Cytuno bod angen cyfarfod arbennig i drafod mewn manylder a threfnwyd hynny ar gyfer nos Fercher Tachwedd 26 yn y Llyfrgell am 6.30 o'r gloch.

Bydd posib trefnu cyfarfod ar y cyd gyda chynghorau lleol eraill ar gyfer yr ail ran o'r ymgynghoriad.

Nodwyd bydd modd gwahodd Mr Alan Raymant i gyfarfod y Cyngor yn y flwyddyn newydd.

Nodwyd hefyd y pwysigrwydd o gael tystiolaeth o drafodaethau yn dangos gwaith y Cyngor i geisio sicrhau'r gorau i'r gymuned ac yn nodi unrhyw bryderon ac ymatebion.

*There is a need to respond to the consultation document by December 8<sup>th</sup>. It was agreed to hold a special meeting to discuss in detail on Wednesday November 26<sup>th</sup> in the Library at 6.30pm.*

*It will be possible to arrange a meeting with other community councils in order to respond to the second stage of consultation.*

*It was noted that there is a possibility of inviting Mr Alan Raymant to a Council meeting in the new year.*

*The importance of recording and evidencing the Council's work and discussions to secure the best for the community and address any concerns was also noted*

## **11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Rhagfyr 15, am 7 o'r gloch yn y llyfrgell.

*The next meeting will be on Monday evening December 15 at the library for 7pm.*

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 o'r gloch. / *The meeting closed at 8.50pm.*